

Pererin yn crwydro adref

“... i etifeddiaeth na ellir na’i difrodi, na’i difwyno, na’i difa ... ynghadw yn y nefoedd ichwi.” (adn. 4)

Beth am ddarlenn 1 Pedr 1:1–9 ac yna myfyrio

Yr oeddwn yn dweud ddoe fod y person duwiol yn rhoi’r argraff ei fod yn alltud yn y byd, ond nid yw hyn mewn unrhyw ffordd yn peri ei fod yn ymddangos yn annaturiol neu nad oes ganddo ddiddordeb yn yr hyn sydd yn mynd ymlaen o’i gwmpas. Dywedodd un pregethwr mewn ffordd effeithiol iawn unwaith, “Os oes gennyf ddirnadaeth ysbrydol, pryd bynnag y byddi yn cyfarfod ag un o’r saint, yr wyt yn dod yn ymwybodol o ddau beth sydd yn wir amdano. Ar y naill law, yr wyt yn sylweddoli pa mor naturiol a chartrefol yw’r dyn yma ac yna’r funud nesaf, fe fyddi’n dweud wrth dy hun, mae’r dyn yma’n alltud. Nid yw’n perthyn yma o gwbl, mae’n ddieithryn ar daith adref.

Fe fu i mi gyfeirio hefyd at y ffaith bod yr apostol Paul yn brysur dros deyrnas Dduw yn y byd yma, ac eto yn hiraethu am gael bod gartref. Gellir dweud yr un peth am Pedr. Yn yr adnodau sydd i’w darllen heddiw, mae’n atgoffa ei ddarlennwyr o’r gobaith sydd yn cael ei roi i bob crediniwr, gobaith am etifeddiaeth na ellir ei difrodi, sydd ynghadw yn y nefoedd.

Rwy’n gwybod fy mod yn ailadrodd ond mae angen ailadrodd rhai pethau. Fel y mae person yn dod yn fwy duwiol, y mae hefyd yn dod yn fwy ymwybodol o’r nefoedd.

Cymharwch hyn â’r hyn ddywedwyd mewn erthygl mewn cylchgrawn yn ddiweddar. “Does gennyf i ddim diddordeb yn yr hyn sydd yn gorwedd tu hwnt i’r bywyd yma. Mae’r ddaear yn fy modloni i. Pan fydd y bywyd yma drosodd, mi fyddaf wedi cael y cyfan yr ydw i am ei gael.” Dyna drist. Ni fyddai gennyf sicrwydd petawn yn cael yr oll yr wyf i yn hiraethu amdano yn y bywyd yma. Mae fy enaid yn hiraethu am rywbeth sydd yn ateb fy angen yn llawnach. Rydw i wedi cael blas ar y nefoedd yma ar y ddaear, ond dim ond blas a gefais. Mae’r wledd eto i ddod.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Heb. 13:1–14; 1 Pedr 2:11; Heb. 11:11–13

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Am beth oedd awdur yr Hebreaid yn edrych?
2. Sut oedd arwyr y ffydd yn ystyried eu bywyd?

Gweddi

O Dad, er fy mod wedi cael ychydig o flas y nefoedd yn fy enaid yn barod, nid yw’n ddim i gymharu â’r hyn sydd o’r blaen. Mae’r blas yn felys, ond beth am y wledd? Diolch, Dad nefol. Amen.